

**COFNODION CYFARFOD
BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG (BIP CTM)
A GYNHALIWDY DDYDD IAU 30 IONAWR 2020
YN NHŶ YNYSMEURIG, PARC HEN LOFA'R NAVIGATION, ABERCYNON**

AELODAU A FU'N BRESENNOL:

- | | |
|--------------------|---|
| Marcus Longley | - Cadeirydd |
| Sharon Hopkins | - Prif Weithredwr (Dros Dro) |
| Maria Thomas | - (Is-gadeirydd) |
| Greg Dix | - Cyfarwyddwr Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion |
| Ian Wells | - Aelod Annibynnol |
| James Hehir | - Aelod Annibynnol |
| Jayne Sadgrove | - Aelod Annibynnol |
| Nicola Milligan | - Aelod Annibynnol |
| Phillip White | - Aelod Annibynnol |
| Dilys Jouvenat | - Aelod Annibynnol |
| Nick Lyons | - Cyfarwyddwr Meddygol |
| Alan Lawrie | - Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl |
| Steve Webster | - Cyfarwyddwr Cyllid |
| Liz Wilkinson | - Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd |
| Giovanni Isingrini | - Aelod Cysylltiol o'r Bwrdd |

ERAILL A FU'N BRESENNOL:

- | | |
|---------------------|--|
| John Palmer | - Prif Swyddog Gweithredol |
| Hywel Daniel | - Dirprwy Gyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| Georgina Galletly | - Cyfarwyddwr Llywodraethu / Ysgrifennydd y Bwrdd (Dros Dro) |
| Erika Hawes | - Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| Cathy Moss | - Prif Swyddog, Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf Morgannwg (Cyngor Iechyd Cymuned CTM) (Yn rhannol) |
| Olive Francis | - Is-gadeirydd, Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf Morgannwg |
| Julia Sumner | - Pennaeth Cyfathrebu (Dros Dro) |
| Paul Dalton | - Pennaeth Archwilio Mewnol |
| Clare Williams | - Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cynllunio a Phartneriaethau |
| Wendy Penrhyn-Jones | - Pennaeth Gweinyddiaeth Gorfforaethol (Yn rhannol) |
| Emma Walters | - Swyddog Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Pwyllgor (Yn rhannol) |

HB/20/001

CROESO A CHYFLWYNIADAU

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan ddiolch i'r cyhoedd a ddaeth i arsylwi'r cyfarfod. Dywedodd M Longley y cynhaliwyd y cyfarfod yn gyhoeddus er mwyn cynnal gwaith y Bwrdd Iechyd yn hytrach na chyfarfod cyhoeddus ac felly, ni fu'n bosibl ymateb i gwestiynau gan y cyhoedd.

O ystyried y lefel o ddiddordeb yn eitem 3.3 ar yr agenda (Rhaglen De Cymru – Datblygu'r argymhellion heb eu cyflawni), dywedodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu diwygio trefn yr agenda er mwyn trafod yr eitem hon yn gynharach.

HB/20/002

YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

CAFWYD ymddiheuriadau gan Anne Phillimore, Cyfarwyddwr Dros Dro y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol; Keiron Montague, Aelod Annibynnol; Kelechi Nnoaham, Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus; Mel Jehu, Aelod Annibynnol; Paul Griffiths, Aelod Annibynnol; Ruth Treharne, Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad a John Beecher, Cadeirydd, Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf Morgannwg.

HB/20/003

DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni fu yr un datganiad o fuddiant.

HB/20/004

RHAGLEN DE CYMRU – DATBLYGU'R ARGYMHELLION HEB EU CYFLAWNI

CAFWYD adroddiad a oedd yn ceisio ystyriaeth bellach i'r opsiynau a fanylir mewn perthynas â darparu gwasanaethau'r adrannau damweiniau ac achosion brys yn BIP CTM.

Cyflwynodd N Lyons, yr Uwch Swyddog Cyfrifol am y mater hwn, yr adroddiad gan dynnu sylw at y pwyntiau canlynol:

- Cefndir Rhaglen De Cymru a'r angen dybryd i ystyried darpariaeth bresennol adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Brenhinol Morgannwg, gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy i gleifion.
- Ni wnaed penderfyniadau ynglŷn â darpariaeth adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn y dyfodol ac nid oedd dyfodol cyffredinol yr ysbyty dan berygl.
- Y pwysau ychwanegol a oedd yn bodoli yn sgil y lleihad yn nifer y meddygon graddfa ymgynghorydd a graddfa ganol sy'n gweithio yn adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Brenhinol Morgannwg (a arweiniodd at yr angen i 'gau' yn rhannol ddydd Nadolig a Gŵyl San Steffan 2019 yn sgil methu â chynnal gwasanaeth dros nos) ac

Eitem rhif 2.2.2 ar yr agenda

ymddiswyddiadau pellach yn ystod mis Ionawr 2020 a wnaeth gwasanaethau'r adran hyd yn oed yn fwy bregus.

- O blith y pedwar opsiwn uchel eu lefel a nodwyd yn yr adroddiad, dim ond gyda newidiadau ychwanegol yn y gwasanaeth y gellid rhoi opsiwn 1 ar waith, fel y'i disgrifir yn opsiwn 2, felly teimlwyd y dylid gwrthod yr opsiwn hwn ar yr adeg hon.
- Ar y pryd, roedd gan BIP CTM 12.5 o ymgynghorwyr yn eu hadrannau damweiniau ac achosion brys, er mai 35-45 oedd y ffigur a argymhellwyd gan y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys ar gyfer y boblogaeth a wasanaethir ac roedd y cyfleoedd i leihau'r 'bwlch' hwn yn hynod brin. O ganlyniad, teimlwyd nad oedd opsiwn 3 yn hyfyw.
- Cynhaliwyd gwaith modelu er mwyn asesu mynediad cleifion a byddai goblygiadau llif yn helpu i ddiffinio modelau gwasanaeth mwy penodol a manwl ar gyfer adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Teimlwyd bod dau opsiwn i'w hystyried ymhellach, sef (A) troi adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Brenhinol Morgannwg o wasanaeth 24 awr dan arweiniad ymgynghorwyr yn uned mân anafiadau 24 awr dan arweiniad ymarferwyr nyrsio gyda gwell gwasanaethau cymunedol a (B), adran damweiniau ac achosion brys â llai o oriau dan arweiniad ymgynghorwyr.
- Cydnabuwyd y goblygiadau o ran trafndiaeth.

Cafwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol gan aelodau annibynnol:

- A oedd data ar gael ynghylch nifer y cleifion sydd wedi dod i'r adran damweiniau ac achosion brys a'u cyflyrau?
- A fyddai adran damweiniau ac achosion brys dan arweiniad ymgynghorwyr yn ystod y dydd yn fwy deniadol i ddarpar ymgeiswyr am swyddi meddygol?
- O ystyried y treigl amser ers y penderfyniadau gwreiddiol ynghylch Rhaglen De Cymru, a oedd yr opsiynau'n ddilys o hyd o ystyried y newidiadau yn y boblogaeth a wasanaethir, er enghraifft?
- A allai adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr Tudful ac Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr ymgymryd ag unrhyw lwyth gwaith ychwanegol?
- A wnaeth y penderfyniad ar Raglen De Cymru yn 2014 effeithio ar yr ymdrechion i recriwtio i gryfhau tîm adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Brenhinol Morgannwg?
- Gan gydnabod bod y gwaith o fodelu'r galw a chapasiti wedi cychwyn, byddai angen ystyried y materion a godwyd ar lefel gymunedol er mwyn deall effaith lawn unrhyw benderfyniad wrth symud ymlaen.

Eitem rhif 2.2.2 ar yr agenda

- Roedd angen cyflymu'r gwaith o ddarparu gwell gwasanaethau cymunedol yn unol â'r trydydd sector, ymarfer cyffredinol ac awdurdodau lleol lle bo'n bosibl gyda golwg ar leihau'r pwysau ar yr adran damweiniau ac achosion brys.
- Yr angen i hyfforddi a datblygu nyrsys a meddygon er mwyn sefydlogi'r capasiti a gwneud y gwasanaethau'n fwy cynaliadwy.
- Effaith bosibl yr amryw opsiynau a gynigir.
- A fydd gweithwyr locwm yn cael eu defnyddio i lenwi'r bylchau yn staff yr adran damweiniau ac achosion brys?
- Er bod diogelwch a chynaliadwyedd yn hollbwysig, roedd angen datrys y cyfnod o chwe blynedd o ansicrwydd dros ddyfodol adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Brenhinol Morgannwg fel y gallai'r ysbyty gyflawni ei lawn botensial fel safle allweddol.

Mewn ymateb, dywedodd N Lyons fod gwaith manwl ynghylch galw a chapasiti a llif cleifion ar y gweill er mwyn deall goblygiadau'r opsiynau dan ystyriaeth yn llawn. **NODODD** yr aelodau fod heriau sylweddol gan bob un o'r ysbytai ag adran damweiniau ac achosion brys a phe gwneid penderfyniad o blaid opsiwn 4, byddai angen cynnwys gwell gwasanaethau cymunedol o hyd (y cyfeirir atynt o dan opsiwn 2) yn ogystal ag ystyried datrysiadau posibl a gynigir gan y staff a'r gymuned leol.

Dywedodd N Lyons y cafodd dau ymgynghorydd newydd (a gafodd eu hyfforddi yng Nghymru) eu recriwtio i weithio yn adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Tywysoges Cymru ar sail cytundeb CTM. Roedd hyn yn golygu y byddai'r safle ym Mhen-y-bont ar Ogwr mewn sefyllfa i gynnig cymorth i adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mewn perthynas â'r gwaith parhaus parthed recriwtio staff meddygol graddfa ganol, **NODODD** aelodau'r Bwrdd fod recriwtio dramor yn cael ei ystyried a cheir unrhyw ddatblygiadau yn ystod cyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2020.

Dywedodd J Palmer ei bod yn bwysig cydnabod gwaith caled timau'r holl adrannau damweiniau ac achosion brys ledled ardal CTM o ran parhau i ddarparu gwasanaethau bob dydd. **NODODD** aelodau'r Bwrdd fod y rhain yn cynnwys ymarferwyr nyrsio, y timau 'Aros yn Iaith Gartref' yn ogystal â'r meddygon aciwt. Roedd pob un ohonynt wedi cyfrannu at y gwasanaethau cynorthwyol dros y chwe blynedd diwethaf. Dywedodd J Palmer fod y gwaith tîm hwn wedi creu ymdeimlad gwerthfawr o optimistiaeth wrth symud ymlaen diolch i'r staff anhygoel. Diolchodd M Longley yn yr un modd ar ran y Bwrdd.

Eitem rhif 2.2.2 ar yr agenda

Parthed yr ymdrechion i recriwtio staff meddygol graddfa ganol, dywedodd N Lyons fod diffyg staff yn broblem genedlaethol, roedd yr hysbysebion wedi bod yn aflwyddiannus i raddau helaeth, felly defnyddiwyd rhwydweithiau i hysbysu ymgeiswyr posibl am y swyddi gwag. **NODODD** aelodau'r Bwrdd y gwnaed ymdrechion i 'dyfu' ymgynghorwyr at y dyfodol ac roedd y trafodaethau'n parhau ag arbenigeddau meddygol eraill ynghylch hyn. Dywedodd N Lyons y bu ymdrechion sylweddol i recriwtio ymgynghorwyr i weithio yn Ysbyty'r Tywysog Siarl gyda golwg ar gynorthwyo'r Rhwydwaith Trawma Mawr, ond bu hyn yn aflwyddiannus. Dywedodd N Lyons fod angen sicrhau bod y cyfryw swyddi'n ddeniadol ac yn arloesol. **NODODD** yr aelodau y teimlai'r Cyfarwyddwr Meddygol y gellid gwneud mwy ynghylch hyn.

Parthed cynnig gwell hyblygrwydd yng nghytundebau'r ymgynghorwyr, dywedodd N Lyons y byddai'r cyfryw newidiadau'n gwneud y swyddi gwag yn fwy deniadol a byddent hefyd yn galluogi mwy o gyfleoedd i symud staff o gwmpas safleoedd BIP CTM.

NODODD aelodau'r Bwrdd fod ymweliad â Weston-super-Mare wedi'i drefnu er mwyn deall sut roedd y cyfryw gytundebau'n gweithio yn eu gwasanaethau iechyd.

NODODD aelodau'r Bwrdd fod ffyrdd arloesol hefyd y gellid defnyddio uwch-ymarferwyr nyrsio a fyddai o fudd i gleifion. Dywedodd G Dix fod ymarferwyr nyrsio brys yn ymdrin â mân anafiadau a bod ambell dasg yr uwch-ymarferwyr nyrsio'n debyg i'r rheiny a gyflawnir yn draddodiadol gan feddygon graddfa ganol. **NODODD** aelodau'r Bwrdd fod heriau, fodd bynnag, o ran nifer y cyfryw nyrsys cymwys a'r nifer y gallai Addysg a Gwella Iechyd Cymru ei gomisiynu.

Dywedodd A Lawrie fod gan BIP CTM well mynediad i wasanaethau meddygon teulu ond cydnabuwyd bod angen gwella mewn rhai meysydd o hyd. **NODODD** aelodau'r Bwrdd y buddsoddiwyd mewn timau cymunedol yn ystod 2019/20 a oedd yn darparu gofal i gleifion 'yn agosach at gartref' a bod y prif safleoedd yn cael eu cynorthwyo gan ddau ysbyty cymunedol anhygoel. Dywedodd A Lawrie y gellid datblygu'r cyfryw wasanaethau er mwyn helpu i gynnig cymorth ychwanegol i gleifion.

Dywedodd N Lyons y byddai'n ymdrechu i roi gwybodaeth bellach i'r Bwrdd ynghylch capasiti a dyluniad y gwasanaethau yn ogystal â'r dadansoddiad o'r effaith yn sgil yr opsiynau.

Eitem rhif 2.2.2 ar yr agenda

Tynnodd C Moss sylw at broblemau ynghylch y ffaith nad oedd y Cyngor Iechyd Cymuned yn ymwybodol o'r dyddiadau a drefnwyd pan fu angen i adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Brenhinol Morgannwg gau'n rhannol yn sgil diffyg meddygon graddfa ganol, gan arwain at ddargyfeirio cleifion i Ysbyty'r Tywysog Siarl neu ymddiswyddiad diweddar ymgynghorydd. Dywedodd C Moss na chafodd Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro wybod am yr opsiynau a oedd dan ystyriaeth ynghylch yr adran damweiniau ac achosion brys. O ran opsiwn 'A' a nodir ar dudalen 16 yr adroddiad, dywedodd C Moss na fyddai digon o amser i wneud yr holl drefniadau angenrheidiol pe bai'r cynllun arfaethedig i symud yr adran paediatreg o Ysbyty Brenhinol Morgannwg i Ysbyty'r Tywysog Siarl.

Mewn ymateb, dywedodd S Hopkins nad oedd Rhaglen De Cymru yn newydd a nodwyd y penderfyniad i oedi'r ymgynghoriad ynghylch paediatreg ar gofnod yn haf 2019 gan ei bod yn gysylltiedig a bu gwaith hefyd i gyflwyno'r ffordd arfaethedig ymlaen i'r Bwrdd ym mis Medi 2020. Ychwanegodd S Hopkins y disgwyliid codi'r problemau yng nghyfarfod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro y diwrnod hwnnw yn ogystal â'u trafod ar lefel ranbarthol. Dywedodd S Hopkins er bod y gwaith hwn wedi'i gynllunio dros gyfnod o 12 mis, gyda'r risg gynyddol yn adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Brenhinol Morgannwg, cafodd hyn ei ddwyn at sylw cyfarfod y Bwrdd i'w drafod heddiw. Dywedodd S Hopkins fod angen rhoi diwedd ar y mater hwn cyn gynted â phosibl o ystyried y risgiau o ran diogelwch.

Dywedodd S Hopkins mai'r Fforwm Cynllunio Rhanbarthol fyddai'r mecanwaith ar gyfer llywio a rhannu gwybodaeth a bod cyfarfod o'r Byrddau Iechyd Rhanbarthol ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwylans Cymru yn digwydd ar 3 Chwefror 2020, gyda chyflwyniad i gyd-gynghorau Cyngor Iechyd Cymuned ym mis Mawrth 2020.

Dywedodd N Lyons fod y posibilrwydd o lenwi'r holl swyddi meddygol gwag yn yr adran damweiniau ac achosion brys yn annhebygol a bod BIP CTM yn dibynnu ar weithwyr locwm beth bynnag o achos y bregusrwydd presennol. Ychwanegodd N Lyons fod dibynnu ar weithwyr locwm dros nos yn anghynaliadwy gan nad oedd yn galluogi gwaith tîm a bod ystyriaethau o ran diogelwch.

Dywedodd S Hopkins ei bod yn bwysig i'r Bwrdd ddangos yn glir y cyfeiriad yr oedd yn cytuno ymchwilio iddo o ran darpariaeth y gwasanaeth yn y dyfodol er mwyn osgoi sefyllfa lle byddai risgiau'n parhau i dyfu.

Eitem rhif 2.2.2 ar yr agenda

Wrth grynhoi'r trafodaethau, diolchodd y Cadeirydd N Lyons am y gwaith a wnaed hyn yn hyn gan gydnabod bod llawer i'w wneud o hyd ond bod angen gwybodaeth bellach er mwyn i'r Bwrdd allu gwneud penderfyniad deallus.

Dywedodd M Longley y gofynnodd yr adroddiad i'r Bwrdd nodi opsiynau hyfyw ar gyfer darpariaeth y gwasanaeth yn y dyfodol a'i bod yn glir y byddai angen gwaith pellach yn y maes hwn i nodi'r holl broblemau a bwriadon yn llawn. Mewn perthynas â hyn, dywedodd y Cadeirydd fod angen i opsiwn 4 gynnwys y gwell gwasanaethau cymunedol (y cyfeirir atynt yn opsiwn 2) a bod angen dadansoddiad o'r effaith ar adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Tywysoges Cymru. Dywedodd y cytunwyd bod angen gwybodaeth bellach ynghylch yr ymdrechion i recriwtio staff meddygol i'r adran damweiniau ac achosion brys a chadernid y cynllun recriwtio wrth symud ymlaen er mwyn sicrhau bod pob opsiwn wedi cael ei ystyried pe bai'n bosibl bod yn adran damweiniau ac achosion brys 24 awr gynaliadwy dan arweiniad ymgynghorwyr yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Dywedodd M Longley fod y safle yn weddol newydd, ac yntau dim ond ar agor ers 20 mlynedd, a'i fod yn gweithredu ar fodolau rhagorol o ofal. Felly, roedd ganddo le hanfodol yn nyfodol BIP CTM.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol nodi'r rhesymau pam na allai unrhyw rai o'r awgrymiadau a wnaed fod yn bosibl yn yr adroddiad nesaf (**YCHWANEGWYD AT Y COFNODION GWEITHREDU**).

NODODD yr aelodau fod tri chyfarfod ymgysylltu â'r cyhoedd wedi'u trefnu dros yr wyth diwrnod nesaf er mwyn ymgysylltu'n uniongyrchol â chymunedau BIP CTM. Bwriad y rhain oedd galluogi'r rheiny sy'n gweithio ac yn defnyddio'r gwasanaethau iechyd i gynnig syniadau.

PENDERFYNODD y Bwrdd i wneud y canlynol:

- **CYMERADWYO** parhad y prosiect ac ystyried ymhellach yr opsiynau a nodir wrth barhau i ymgysylltu â Rhanddeiliaid mewnol ac allanol, gan ddarparu adroddiadau o gynnydd i gyfarfod y Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2020.
- **CYTUNO** bod yr adroddiadau sydd i ddod yn canolbwyntio ar ddatblygu, asesu a gwerthuso opsiynau A a B ymhellach gyda manylion ynglŷn â'r posibilrwydd o sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth 24 awr presennol dan arweiniad ymgynghorwyr wrth symud ymlaen.

HB/20/004

COFNODION HEB EU CADARNHAU O'R CYFARFOD O'R BWRDD IECHYD A GYNHALIUYD AR Y 28 TACHWEDD 2019, 19 RHAGFYR 2019 A'R CYFARFOD 'MEWN PWYLLGOR' HEB EU CADARNHAU A GYNHALIUYD AR 28 TACHWEDD 2019

CYMERADWYODD yr aelodau gofnodion cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd a 19 Rhagfyr 2019, yn gofnod gwir a chywir.

CYMERADWYODD yr aelodau gofnodion cyfarfod 'mewn pwyllgor' y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2019.

HB/20/005

COFNODION GWEITHREDU

CAFODD yr aelodau'r Cofnodion Gweithredu.

Dyweddodd G Dix er bod gweithred 8/16 'wedi ei chwblhau' mewn gwirionedd, roedd y naratif yn ymwneud ag eitem arall.

Dyweddodd G Galletly y dylid nodi 'Statws ym mis Ionawr 2020' ar bennawd y 'golofn statws' yn hytrach na 'Statws ym mis Tachwedd 2019'.

HB/20/006

MATERION SY'N CODI

CAFWYD y diweddariadau canlynol:

Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2019:

Gan gyfeirio at dudalen 5, paragraff 4, dywedodd I Wells fod cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) a Llywodraethu Gwybodaeth yn cael ei gynnal ar 6 Chwefror 2020.

Gan gyfeirio at dudalen 9, paragraff 1, gofynnodd N Milligan am y diweddaraif ar y broses o gysoni'r oriau sifft rhwng Ysbyty Tywysoges Cymru a dau ysbyty aciwt arall y sefydliad. Dywedodd G Dix y byddai'n trafod hyn ymhellach â H Daniel. **(YCHWANEGWYD AT Y COFNODION GWEITHREDU)**

HB/20/007

ADRODDIAD Y CADEIRYDD A GOSOD Y SÊL GYFFREDIN

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad a rhoddodd ddiweddariad ar y prif feysydd yn yr adroddiad.

Ynghylch y cyfweiliadau i'w cynnal ar 28 Ionawr 2020 ar gyfer Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Gwasanaethau Clinigol, dywedodd y Cadeirydd fod y rhain wedi eu gohirio.

PENDERFYNODD y Bwrdd i wneud y canlynol:

- **NODI'R** adroddiad;
- **CADARNHAU'R** camau gweithredu a gymerwyd gan y Cadeirydd ynghylch y tir ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r lanfa hofrenyddion yn Ysbyty'r Tywysog Siarl.
- **CYMERADWYO'R** broses o osod y Sêl Gyffredin fel y'i rhestrir yn yr adroddiad.

HB/20/008

ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad i'r aelodau a **NODODD** y Bwrdd y prif feysydd y tynnir sylw atynt ynddi.

Dywedodd S Hopkins y penodwyd yn ddiweddar yn y tri grŵp ardal o ran swyddi'r Cyfarwyddwyr Clinigol yn ogystal â Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol BIP CTM, sef cam pwysig o ran dechrau arweinyddiaeth glinigol.

O ran gorffen y drafft o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2020-2023, dywedodd S Hopkins y gobaith oedd y byddai modd cyflwyno hwn i'r Bwrdd yn ystod y cyfarfod hwn ond ni fu hyn yn bosibl yn sgil yr angen am fwy o waith ynghylch cynaliadwyedd y cynllun. Ychwanegodd S Hopkins y trafodwyd y bwriad i fireinio'r cynllun ymhellach gyda Llywodraeth Cymru a chynigiwyd cyflwyno hwn i'r Bwrdd yn ystod ei gyfarfod ym mis Mawrth 2020 cyn ei anfon at Lywodraeth Cymru.

PENDERFYNODD y Bwrdd i wneud y canlynol: **NODI'R** diweddariad.

HB/20/009

YMATEB BIP CTM I'R ADRODDIAD ANNIBYNNOL (STEVE COMBE) YNGHYLCH SUT Y YMDRINIWYD AG ADRODDIAD Y FYDWRAIG YMGYNGHOROL AR SECONDIAD AM WASANAETHAU MAMOLAETH, BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG

Cyflwynodd G Galletly yr adroddiad gan atgoffa'r cydweithwyr fod y Bwrdd wedi ei gorchymyn i weithio gyda P Griffiths a J Hehir (Aelodau Annibynnol) mewn perthynas â'r ymateb i'r argymhellion a ddaw yn sgil yr adroddiad uchod ac i fynd i'r afael â sut roedd yr uwch-dîm arweinyddiaeth yn cydweithio. Diolchodd G Galletly yr aelodau annibynnol am eu mewnbwn yn y modd hwn. Rhoddodd y Cadeirydd ei ddiolch personol i'r cydweithwyr hefyd.

Dywedodd G Galletly fod angen gweithredu ar bob argymhelliad ac roedd rhai o'r rhain yn datblygu ar waith sydd eisoes ar y gweill. Cyfeiriodd G Galletly yr aelodau at atodiad 1 o'r adroddiad sy'n datblygu ar y gwaith sylweddol sydd eisoes ar y gweill yn y sefydliad. Fel rhan o ddatblygu Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad y sefydliad, gofynnwyd i'r aelodau gadarnhau eu hymrwymiad i Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus Nolan.

Eitem rhif 2.2.2 ar yr agenda

Wrth gyfeirio at atodiad 1, gofynnodd I Wells am eglurhad ynglŷn â'r cyfeiriad ar waelod tudalen 1 at y rhaglen barhaus ar gyfer gwreiddio'r gwerthoedd ac ymddygiad y cytunwyd arnynt a nododd y disgwylir cwblhau'r rhain ym mis Ebrill 2020. Dywedodd G Galletly fod disgwylir cwblhau'r rhaglen i sbarduno'r gwaith hwn erbyn y dyddiad hwn, ond byddai'r proses o'i chyflwyno'n cymryd mwy o amser i'w chyflawni. Gan gyfeirio at y cynigion ynghylch cynnal Sesiynau Datblygu'r Bwrdd a Dogfennau Briffio'r Bwrdd, gofynnodd y Cadeirydd sut y byddai'r Bwrdd yn cael sicrwydd parhaus ar ôl ei gweithredu. Dywedodd G Galletly y byddai gwaith Pwyllgorau'r Bwrdd yn rhan o'r system o ddarparu sicrwydd parhaus. **NODODD** aelodau'r Bwrdd y byddai'r Bwrdd hefyd yn cael sicrwydd trwy hunanasesiad a gwaith i'r systemau sy'n llifo o'r Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad.

Dywedodd H Daniel y byddai dangosyddion 'caled a meddal' yn darparu gwybodaeth bwysig ynglŷn ag ymddygiadau sefydliadol a byddai hyn yn cael ei ystyried ynghyd â chymhwysedd a gwerthoedd yn ogystal â phwyntiau o'r arolwg o'r staff a chydweithwyr yn yr undebau llafur.

Dywedodd S Hopkins y byddai'r matricsau aeddfedrwydd yn cael eu cwblhau'n fuan ac y byddai rhai o'r adnoddau a fyddai'n cael eu defnyddio'n cynnwys hyfforddiant ac adolygiadau 360 gradd. **NODODD** yr aelodau fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r ffordd y byddai gwybodaeth gyfanredol yn dod yn ôl i'r Bwrdd. Dywedodd H Daniel fod yr holl benodiadau diweddar ynghylch y model gweithredu newydd wedi cynnwys profion seicometrïg er mwyn deall effaith yr ymddygiad a sut y gellid cydbwysu hyn gyda sgiliau tîm ac arddull weithredu newydd.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai angen i'r Bwrdd gael diweddariadau cyfnodol ar y mater pwysig hwn a chytunwyd ar ddiweddariad ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf (**YCHWANEGWYD AT Y COFNODION GWEITHREDU**).

PENDERFYNODD y Bwrdd i wneud y canlynol:

- **CYMERADWYO'R** cynllun gweithredu sy'n ymateb i'r argymhellion a ddaw o adroddiad Steve Combe (Rhagfyr 2019)
- Cadarnhau ymrwymïadau unigol i Egwyddorion Nolan.

HB/20/010

CYMERADWYO'R YMATEB ARFAETHEDIG I ADOLYGIAD AR Y CYD AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU A SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU O LYWODRAETHU ANSAWDD

Eitem rhif 2.2.2 ar yr agenda

Darparodd yr adroddiad a gyflwynwyd gan G Dix a G Galletly yr ymateb arfaethedig gan y tîm rheoli a'r cynllun gweithredu a ddaw yn sgil yr adroddiad uchod. **NODODD** aelodau'r Bwrdd y trafodwyd hyn gan y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd Rheoli a chraffwyd arno gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, lle cafodd ei gymeradwyo i'w ystyried gan y Bwrdd.

Estynnwyd gwahoddiad i E Hawes i gyflwyno'r adroddiad. Wrth wneud hynny, cyfeiriodd E Hawes at yr ymgysylltiad defnyddiol a ddigwyddodd ynghylch y mater hwn. Wrth gydnabod canfyddiadau difrifol yr adroddiad, dywedodd E Hawes fod y ffordd yr ymatebodd y sefydliad yn bwysig a bod derbyn y canfyddiadau yr un mor allweddol. **NODODD** y Bwrdd ei bod yn bwysig i'r sefydliad fod yn glir ynglŷn â'i ganlyniadau a blaenoriaethau dyddiol ac er y byddai rhai agweddau ar yr ymateb yn cymryd mwy o amser i gael effaith, roedd rhai o'r camau gweithredu yn enbyd fodd bynnag.

Cyfeiriodd E Hawes at yr angen i sicrhau yr eid i'r afael â'r gwaith o nodi a rheoli risg a bod y sefydliad yn ymwybodol o'i 'bynciau llosg' yr oedd angen eu cyflwyno'n glir fel rhan o'r llyf wybodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd i'r Bwrdd er mwyn mynd i'r afael â chwestiynau megis 'a weithredodd y sefydliad yn briodol a beth a ddysgwyd?'.

NODODD aelodau'r Bwrdd fod gwrando ar wybodaeth fewnol ac allanol a'i dysgu yn rhan bwysig o lywodraethu ansawdd ac roedd hyn yn gyfle da i'r sefydliad newydd ddatblygu ac aeddfedu, gan ddysgu gwersi o adroddiadau yn y gorffennol megis 'Gweithredu ar ôl Andrews' (Ysbyty Tywysoges Cymru) a Chyd-adroddiad Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwagedd (Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl) a roddodd enghreifftiau o'r hyn a allai ddigwydd pan na fyddai prosesau ansawdd yn briodol. **NODODD** aelodau'r Bwrdd bwysigrwydd y camau gweithredu o ran monitro a galluogi adborth dwyffordd yn y sefydliad.

Wrth gyfeirio at y pryderon y tynnwyd sylw atynt o ran gwasanaethau iechyd meddwl BIP CTM, dywedodd E Hawes fod chwe adroddiad eisoes wedi'u cyhoeddi ac roedd seithfed ar y gweill, a oedd yn cynnwys themâu digon tebyg a oedd yn golygu bod hwn yn fater o rywfaint o rwystredigaeth i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. **NODODD** aelodau'r Bwrdd yr angen i weld y seithfed adroddiad yng ngoleuni'r chwe adroddiad blaenorol er mwyn dysgu gwersi. Dywedodd E Hawes fod tystiolaeth o'r cyfryw ddysgu o ran gwasanaethau mamolaeth Ysbyty Brenhinol Morgannwg, sydd wedi gwneud newidiadau hynod a hynny er gwell.

Eitem rhif 2.2.2 ar yr agenda

Dyweddod E Hawes y byddai Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru'n dychwelyd at y Bwrdd yn yr haf i gyflwyno ei adroddiad blynyddol. Erbyn hynny, byddai am fod mewn sefyllfa i ddarparu enghreifftiau pellach o newidiadau cadarnhaol yng ngwasanaethau BIP CTM.

Dyweddod M Thomas y byddai'r seithfed adroddiad ar y gwasanaethau iechyd meddwl yn cael ei ystyried yn fuan gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn dilyn trafodaeth gan y tîm rheoli gan ystyried y problemau a nodir yn yr adroddiadau blaenorol.

Dyweddod S Hopkins fod dysgu'n cael ei gyflwyno fel eitem sefydlog ar agendâu'r cyfarfodydd gweithredol mewn ymdrech i godi proffil pwysigrwydd dysgu sefydliadol. Ychwanegodd S Hopkins ei bod yn gobeithio y byddai cyflwyno'r model gweithredu newydd yn BIP CTM yn fuan yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r problemau ac felly byddai'n bwysig cadw cyrff rheoliadol, megis Arolygiaeth Iechyd Gofal Cymru, yn gyfoes ynglŷn â chyflymder y newid.

Dyweddod S Hopkins fod yr hyn a ddysgir yn sgil y gwelliannau yn y gwasanaethau mamolaeth yn llywio'r gwaith ynghylch yr adran damweiniau ac achosion brys, ond bod gwaith i'w wneud o hyd.

Dyweddod N Milligan y byddai'n ddefnyddiol mynd â'r themâu a ddaw yn sgil y cyfarfodydd â phobl ynghylch diogelwch yn ôl at y Bwrdd am wybodaeth. Dyweddod G Dix y cafodd crynodebau eu rhoi i'r Bwrdd Rheoli ac yna eu rhaedru i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Dyweddod G Dix na chynhaliwyd rhai o'r cyfarfodydd arfaethedig yn ddiweddar oherwydd gwrthdaro o ran dyddiaduron.

Diolchodd y Cadeirydd E Hawes am ei chyflwyniad.

PENDERFYNODD y Bwrdd i wneud y canlynol:

- **CYMERADWYO** ymateb y tîm rheoli i'r adolygiad ar y cyd a fyddai hefyd yn cael ei ddefnyddio i lywio'r cynllun gwaith ymyrraeth wedi'i thargedu, yn enwedig y categori llywodraethu ansawdd.

HB/20/011

FFRAMWAITH SICRWYDD Y BWRDD

Cyflwynodd G Galletly yr adroddiad sy'n darparu Fframwaith Sicrwydd diwygiedig y Bwrdd a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Ionawr 2020. **NODODD** aelodau'r Bwrdd fod y newidiadau y cytunwyd arnynt yno bellach wedi'u cynnwys yn y fersiwn gyfredol i'w chyflwyno i'r Bwrdd.

Eitem rhif 2.2.2 ar yr agenda

NODODD yr aelodau mai dyma'r diweddariad cyntaf i Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ac y byddai fersiynau pellach yn cael eu darparu er mwyn adlewyrchu'r camau parhaus a gymerir i gryfhau'r mecanweithiau sicrwydd.

NODODD aelodau'r Bwrdd y nododd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd y modd y cafodd y Bwrdd sicrwydd yn ogystal â'r camau gweithredu a gododd o ganlyniad i roi BIP CTM o dan fesurau arbennig/ymyrraeth wedi'i thargedu. Cyfeiriodd G Galletly aelodau'r Bwrdd at adran 3.1 o'r adroddiad sy'n nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i roi hwb i drefniadau llywodraethu'r Bwrdd a dywedodd y byddai sesiwn arbennig i drafod derbynoldeb y sefydliad o ran risg yn cael ei chynnal yn ystod Sesiwn Datblygu'r Bwrdd ym mis Ebrill 2020.

NODODD aelodau'r Bwrdd fod yr hyn a oedd yn ganolog i'r gwaith o reoli risg yn effeithiol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd oedd datblygu'r Gofrestr Risg.

Dywedodd M Thomas pan gafodd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ei drafod yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg, tynnwyd sylw at y rôl a oedd gan y Pwyllgor o ran risg, yn ogystal â phwy gaiff ei neilltuo yn arweinydd gweithredol a'r strwythurau ategol ar waith i hwyluso'r cyfrifoldebau hyn. Awgrymodd M Thomas drafod hyn ymhellach yn ystod Sesiwn Datblygu arfaethedig y Bwrdd ym mis Ebrill 2020.

Awgrymodd J Sadgrove y dylid mewnosod cyfeirnod yn y diagram ar dudalen 3 y crynodeb o'r atodiadau ynghylch systemau rheoli mewnol sy'n nodi'r fframwaith sicrwydd yn ei gyd-destun gweithredol. Cytunodd G Galletly i gynnwys y testun a awgrymwyd. Awgrymodd J Sadgrove ystyried a oedd y ddogfen yn ddigon clir o ran y mecanweithiau penderfynu a'r Cynllun Dirprwyo. Ymatebodd G Galletly fod mecanweithiau i gynorthwyo'r Prif Weithredwr yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, ond roedd hi'n fodlon mynegi'r rhain yn gliriach.

NODODD aelodau'r Bwrdd y bwriad i drafod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd eto ymhen blwyddyn.

Diolchodd y Cadeirydd G Galletly am yr holl waith o ddiweddarau'r ddogfen.

PENDERFYNODD y Bwrdd i wneud y canlynol:

- **CYMERADWYO** Fframwaith Sicrwydd diwygiedig BIP CTM gyda'r diwygiadau uchod.

CYNNIG SICRWYDD

Cyflwynodd G Galletly yr adroddiad gan hysbysu aelodau'r Bwrdd bod y cynnig wedi'i rannu gyda grŵp bach o aelodau annibynnol y Bwrdd lle roedd yn effeithio ar bwyllgorau'r Bwrdd. Rhoddwyd diolch i'r aelodau hynny am eu cyfraniad.

NODODD aelodau'r Bwrdd mai'r bwriad oedd adolygu'r sefyllfa ymhen chwe mis (yn hytrach na thri mis fel y'i nodir yn yr adroddiad). Erbyn hynny, byddai cyfle i adolygu'r ffordd yr oedd y sefydliad yn rheoli risg a derbynioldeb risg.

Dywedodd G Galletly y cynigiwyd na ddylid cynnal cyfarfodydd Pwyllgor y Bwrdd yn amlach nag unwaith bob dau fis, er mwyn caniatáu amser i baratoi adroddiadau diweddarau defnyddiol.

O ran y newidiadau arfaethedig, dywedodd G Galletly yr awgrymwyd newid cylch gwaith Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a'r Gweithlu fel bod ei ganolbwynt yn gysylltiedig â chynllunio, perfformiad a chyllid. **NODODD** yr aelodau y byddai angen sefydlu pwyllgor newydd o ganlyniad i hynny, sy'n ymdrin â Phobl a Datblygu Sefydliadol, gan greu mwy o gyfle i graffu ar y materion sy'n ymwneud â'r model gweithredu newydd, yn ogystal â gwerthoedd ac ymddygiadau. Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol yn hollbwysig i lwyddiant y sefydliad mewn nifer o feysydd gwaith ac y byddai'r trefniadau diwygiedig yn arwain at drefniadau gweithio mwy effeithlon ac effeithiol.

NODODD aelodau'r Bwrdd y bwriad i ddiffinio'n gliriach sut mae'r Bwrdd yn defnyddio ei amser rhwng cyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd. Cynigiodd G Galletly gynnal sesiynau briffio'r Bwrdd a sesiynau datblygu'r Bwrdd ar wahân. Mewn perthynas â chynnal archwiliadau manylach o faterion penodol, dywedodd G Galletly fod sbardunau yn cael eu cynnig ar gyfer comisiynu'r cyfryw adolygiadau yn y dyfodol gan ganiatáu amser i'w paratoi a'u cyflwyno'n briodol.

Bu aelodau'r Bwrdd o blaid y cynigion. Dywedodd G Galletly y byddai'n cysylltu ag aelodau annibynnol y Bwrdd i drafod pwy fyddai'n cadeirio'r Pwyllgor newydd yn ogystal â'r diwygiadau i drefniadau aelodaeth yr aelodau annibynnol.

Dywedodd M Thomas y bu newidiadau hefyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor Iechyd Sylfaenol a Chymunedol, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau, ac mae'n bosibl y bydd angen adlewyrchu'r rhain yn y crynodeb.

PENDERFYNODD y Bwrdd i wneud y canlynol:

- **CYMERADWYO'R** cynigion a nodir yn adran 2 yr adroddiad ac adolygu'r trefniadau hyn o fewn chwe mis.

HB/20/014

STRAEON CLEIFION – GWRANDO AR GLEIFION A STAFF A DYSGU ODDI WRTHYNT

Cyflwynodd G Dix yr adroddiad sy'n nodi pam roedd straeon cleifion yn rhan mor bwysig o'r ffordd mae'r sefydliad yn casglu gwybodaeth ynglŷn â phrofiad cleifion.

NODODD yr aelodau fod yr adroddiad yn nodi bod angen arweinydd sefydliad cyfan ar gyfer y mater allweddol hwn, er mwyn rheoli'n briodol y trefniadau llywodraethu a'r trefniadau gweithredol ar gyfer straeon cleifion. **NODODD** yr aelodau fod y cynigion wedi'u hystyried a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

Dyweddodd N Lyons er ei fod yn fodlon cymeradwyo'r cynigion, mae'n bwysig i'r sefydliad ffurfioli'r prosesau sydd ar waith ar gyfer dysgu.

Gofynnodd N Milligan a yw'r systemau cyfredol yn galluogi rhoi adborth i'r sawl sy'n adrodd y stori. Dywedodd G Dix fod y Pwyllgor Profiad Cleifion yn aeddfedu ac yn llywodraethu'r prosesau a themâu yn briodol.

Dyweddodd S Hopkins y byddai'n bwysig cofio nad unig fwriad BIP CTM yw cyflawni ymyraethau ond bod ganddo rôl hefyd o ran iechyd y boblogaeth. Dywedodd N Milligan fod aelod o'r staff wedi cyflwyno ynghylch y thema hon yn ddiweddar yng nghyfarfod y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Dywedodd H Daniel ei fod yn awyddus i gael straeon tebyg yng nghyfarfod arfaethedig y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol ac y byddai'n gweithio gyda G Dix a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ar y mater hwn.

Dyweddodd G Dix fod adnoddau presennol wedi'u hail-neilltuo i ddarparu'r capasiti sydd ei angen i fynd i'r afael â'r cynnig hwn.

PENDERFYNODD y Bwrdd i wneud y canlynol:

- **CYMERADWYO'R** cynnig i nodi Straeon Cleifion fel eitem sefydlog ar yr agenda.
- **CYMERADWYO'R** cynnig ynghylch sefydlu llyfrgell straeon cleifion fel adnodd dysgu.

HB/20/015

COFRESTR RISG Y SEFYDLIAD

Cyflwynodd G Galletly yr adroddiad yn cynghori y dylid trafod y Gofrestr Risg yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Rheoli, y Tîm Gweithredol a Phwyllgorau'r Bwrdd. Dywedodd G Galletly fod gwaith yn cael ei

Eitem rhif 2.2.2 ar yr agenda

ddatblygu i helpu i sicrhau bod y system sy'n tanategu'r Gofrestr Risg yn effeithiol.

NODODD aelodau'r Bwrdd fod rhai risgiau wedi cael eu dileu a bod eraill wedi'u hychwanegu, gydag eraill yn newid eu sgôr o ran risg o ganlyniad i'r cyfryw drafodaethau. **NODWYD** bod y gwaith ynghylch rheoli risg yn gysylltiedig â chyflwyno'r model gweithredu newydd, a fyddai'n dod â sicrwydd ar draws y sefydliad ynghylch risg.

Gofynnodd M Thomas am eglurhad ynglŷn â dileu risg 013 – Methu â gweithredu canlyniadau Rhaglen De Cymru. Dywedodd G Galletly fod y risg hon wedi'i haildiffinio o dan risg 050 – Peidio â chytuno ar fodel cynaliadwy ar gyfer pediatreg cleifion mewnol a meddyginiaeth frys.

Holodd J Sadgrove ynglŷn â risg 020 a gyrhaeddodd ei sgôr targed o 12, ond roedd yn parhau i ymddangos fel risg oren, a holodd a oedd angen ystyried y sgôr targed ymhellach. Dywedodd J Palmer fod y risg yn ddynamig a phan gynyddodd, rhoddwyd camau lliniaru ychwanegol ar waith. Cytunodd y dylai'r sgôr targed gael ei ail-gyfrifo. Awgrymwyd trafod y mater hwn ymhellach yn ystod Sesiwn Datblygu'r Bwrdd sy'n canolbwyntio ar ddefnyddioldeb risg. Bydd hon yn cael ei chynnal ym mis Ebrill 2020.

Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad ynglŷn â'r duedd ynghylch eitemau risg 002 - Methu â chyflawni targedau atgyfeirio am driniaeth, 003 - Methu â chyflawni'r targedau o ran amseroedd aros yn yr adran damweiniau ac achosion brys o 4 awr ac o 12 awr, a 023 - Cleifion a/neu berthnasau/gofalwyr yn methu â chael ymatebion amserol i bryderon a godir/dysgu a gwella. Awgrymwyd ystyried y sgoriau ymhellach.

Dywedodd S Hopkins fod BIP CTM yn mynd i fethu â chyflawni eu mesurau cyflawni angenrheidiol ynghylch targedau atgyfeirio am driniaeth, ond effaith hyn yr oedd angen ei hadlewyrchu'n fwy ystyrlon yn y gofrestr.

Cyfeiriodd I Wells at risg 025 - Methu â chyrraedd safonau diogelwch tân ar draws BIP CTM, gan nodi bod hyn wedi parhau ar sgôr risg o 20 ers 2018. Dywedodd M Thomas er bod crynodeb ar dudalen 51 o'r adroddiad ar gyfer y broblem hon, nid oedd yn ymdrin â BIP CTM yn ei gyfanrwydd. **NODODD** aelodau'r Bwrdd fod materion ynghylch iechyd, diogelwch a thân yn rhan o bortffolio'r Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd. Dywedodd L Wilkinson fod cynllun gweithredu ar y gweill i fynd i'r afael â'r materion hyn. Dywedodd S Hopkins er bod materion parhaus i'w datrys, roedd angen datrys materion etifeddiaeth sy'n ymwneud ag Ysbyty Tywysoges Cymru.

Eitem rhif 2.2.2 ar yr agenda

NODODD aelodau'r Bwrdd y bydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn cael ei hysbysu ynglŷn â'r camau gweithredu ym mis Mawrth 2020 unwaith i'r Bwrdd Rheoli drafod y materion.

PENDERFYNODD y Bwrdd i wneud y canlynol:

- **NODI'R** Gofrestr Risg.
- **TRAFOD** y materion a godir yn yr adroddiad hwn fel rhan o Sesiwn Datblygu'r Bwrdd ar Dderbynioldeb Risg, sydd i'w chynnal ym mis Ebrill 2020.

HB/20/016

ADRODDIAD AR BROFIAD CLEIFION A DIOGELWCH CLEIFION

Cyflwynodd G Dix yr adroddiad a gyflwynwyd ar ffurf templed newydd yn dilyn adborth a gafwyd gan y Bwrdd, gan ychwanegu y byddai croeso i'r aelodau roi adborth ar y ffurf hwn. **NODWYD** y pwyntiau allweddol canlynol:

- Dechreuodd y broses adborth amser real yn ystod mis Mehefin/Gorffennaf 2019 yn y Gwasanaethau Mamolaeth, sydd bellach wedi ei hystyngi i wardiau aciwt Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl gyda chopi caled 'prawf ffrindiau a theulu' ar waith yn Ysbyty Tywysog Cymru.
- O ran darparu adborth o'r wardiau, nodwyd sŵn gyda'r nos fel thema yn ogystal â chyfraniad at benderfyniad ynghylch gofal. Byddai gwaith pellach yn cael ei gynnal yn y ddau faes hyn;
- Dywedodd G Dix fod N Milligan wedi codi pryderon yng nghyfarfod y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch mewn perthynas â chadw cofnodion o ran lleddfu poen, pan ddylai'r staff fod wedi nodi 'amherthnasol';
- Nododd yr adroddiad fod y mecanweithiau ar waith ar gyfer rhannu adborth yn cynnwys sgriniau gwybodaeth mewn rhai mannau clinigol a bod angen gwaith pellach ynghylch dadansoddi thematig;
- Bu dirywiad graddol yn nifer y cwynion ffurfiol a gafwyd dros y tri mis diwethaf a bu rhywfaint o welliant yn erbyn y targed o 30 o ddiwrnodau. **NODODD** yr aelodau y buddsoddwyd yn Nhîm y Gwasanaethau Mamolaeth i helpu i fynd i'r afael â'r cwynion heb eu datrys.
- Roedd adroddiad ar y gweill ar y cwynion yr oedd angen eu hailagor.
- Bu lleihad yn nifer yr atgyfeiriadau at yr Ombwdsmon o 37% i 33%, er bod nifer achosion BIP CTM 'a gadarnhawyd' yn uwch o'u cymharu â sefydliadau eraill;
- Roedd holiaduron yn cael eu hanfon at gleifion mewn perthynas â'r broses 'Gweithio i Wella' a oedd yn helpu i asesu'r ansawdd o safbwynt defnyddwyr.
- Cofnodwyd dau ddigwyddiad na ddylai byth ddigwydd ym mis Tachwedd 2019 ar gyfer Ysbyty Tywysoges Cymru a rhoddwyd camau gweithredu dybryd ar waith i liniaru risgiau pellach;

Eitem rhif 2.2.2 ar yr agenda

- Briwiau pwysu a chwympiadau yw'r brif thema o hyd mewn perthynas â digwyddiadau difrifol.

Croesawodd I Wells yr adroddiad a chyfeiriodd at ymweliad diweddar ag Ysbyty Tywysoges Cymru, lle codwyd y broblem o ran sŵn gyda'r nos gan glaf y siaradodd ag ef. Dywedodd I Wells hefyd iddo weld y gwaith sydd ar y gweill i leihau'r perygl o gleifion yn cael briwiau pwysu a oedd yn cael ei rannu â meysydd eraill er mwyn dysgu gwersi.

Croesawodd M Thomas y ffurf ddiwygiedig ar yr adroddiad a'r cynnydd a wneir, gan ychwanegu mai rôl yr Is-bwyllgor Sicrwydd Ansawdd fyddai triongli'r cyfryw ddata. Dywedodd G Dix unwaith y bydd y model gweithredu newydd ar waith, byddai'n disgwyl i'r Grwpiau Ardal Integredig gynnal adolygiadau o ddata a sicrhau bod y camau gweithredu'n gynaliadwy a'u bod wedi'u gwreiddio.

Rhoddodd J Hehir ganmoliaeth i gynnwys yr adroddiad diwygiedig a gofynnodd sut roedd Ysbyty Tywysoges Cymru'n cymharu â safleoedd eraill BIP CTM o ran y digwyddiadau a adroddir. Dywedodd G Dix nad oedd ganddo unrhyw bryderon ynghylch nifer y digwyddiadau a adroddir ar y safle hwnnw.

Dywedodd M Longley fod y Bwrdd yn ymwybodol bod BIP CTM wrthi'n gwella o ran cwynion ac y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Bwrdd yn gallu gweld y cynlluniau gwella. Dywedodd G Dix fod metrigau cysylltiedig ar waith a fyddai'n cael eu rhannu ag aelodau'r Bwrdd.

PENDERFYNODD y Bwrdd i wneud y canlynol:

- **NODI'R** diweddariad a ddarparwyd;
- **CEFNOGI'R** ffurf ddiwygiedig ar yr adroddiad.

HB/20/017

Y DANGOSFWRDD PERFFORMIAD INTEGREDIG

Cyflwynodd C Williams yr adroddiad gan gynghori ei bod am dynnu sylw'r aelodau at y ffigurau dilys o ran amseroedd aros a bod gwaith ar y gweill i wella perfformiad ynghylch targedau atgyfeirio am driniaeth. **NODWYD** y pwyntiau allweddol canlynol:

Amseroedd Atgyfeiriad am Driniaeth

- Ym mis Rhagfyr, roedd 997 o gleifion wedi aros dros 52 o wythnosau am driniaeth ac roedd 4,355 o gleifion wedi aros dros 36 o wythnosau.
- Bu gwelliant yn y ffigurau o ran aros dros 26 o wythnosau, gyda pherfformiad o 83%, ac o ran arosiadau diagnostig, gyda 1,471 o gleifion yn aros dros wyth wythnos am driniaeth;

Eitem rhif 2.2.2 ar yr agenda

- Roedd gwaith ar y gweill ar yr amcangyfrif diwedd blwyddyn a'r ffigur cyfredol oedd 3,000 o gleifion yn aros dros 36 o wythnosau.
- Byddai naw maes lle na fyddai unrhyw achos o fethu â chyrraedd y targed. Y meysydd o bryder sy'n weddill oedd dermatoleg, gastroenteroleg, wroleg, llawfeddygaeth gyffredinol ac orthopaedeg;
- Roedd rhestrau aros heb eu hadrodd, problemau â CThEM a phwysau gofal heb ei drefnu oll wedi effeithio ar yr amcangyfrif. Roedd trafodaethau â Llywodraeth Cymru yn cael eu cynnal o ran y posibilrwydd o adennill y cyllid y bwriedir ei ddefnyddio i wella amseroedd aros;
- Mewn perthynas ag Ysbyty Tywysoges Cymru, bu heriau o ran amseroedd atgyfeiriad am driniaeth orthopaedeg, gyda 3,500 o gleifion yn aros.

NODODD yr aelodau fod data ar ansawdd yn cael ei gynnwys yn y dangosfwrdd perfformiad gan dynnu sylw at feysydd allweddol o bryder. Nodwyd yr hyn a ddysgwyd yn sgil sepsis ac adolygiadau o farwolaethau fel y prif feysydd o ganolbwynt. **NODODD** yr aelodau mai un o'r marcwyr sy'n gysylltiedig â sepsis oedd rhagnodi gwrthfotigau'n gyflym, a byddai'n rhaid cydbwysu hyn â'r gwaith a wneir ar stiwardiaeth gwrthficrobaidd.

Mewn ymateb i gwestiwn a holwyd gan J Hehir ynghylch cyfraddau sepsis a'r diffyg ymgynghorwyr yn yr adran damweiniau ac achosion brys, dywedodd N Lyons fod prosesau'n dibynnu'n sylweddol ar waith tîm, ac roedd hyn yn her wirioneddol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ar hyn o bryd yn sgil nifer y sifftiau sy'n cael eu llenwi gan staff locwm/asiantaeth.

Cyfeiriodd N Milligan at y cwmp sylweddol mewn perfformiad o ran y Mesur Iechyd Meddwl. **NODODD** yr aelodau fod hyn yn ymwneud â Rhan 1a o'r Mesur a bod yr amcangyfrif wedi dirywio o ganlyniad i salwch ymysg y staff. Dywedodd A Lawrie y dylid gweld gwell amcangyfrif dros yr ychydig fisoedd nesaf ac ychwanegodd mai 95% oedd perfformiad cyfredol Rhan 1b.

Teimlodd I Wells nad oedd yr adroddiad yn nodi'n hawdd y gwaith a wneir i fynd i'r afael â'r meysydd a oedd yn tanberfformio. Yn dilyn trafodaeth, **CYTUNODD** yr aelodau y dylid cynnwys hyn yn y fersiynau o'r adroddiad hwn yn y dyfodol gan nodi y gofynnwyd am y cam gweithredu hwn gan y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a'r Gweithlu yn ystod ei gyfarfod ym mis Chwefror 2020.

Eitem rhif 2.2.2 ar yr agenda

Gofynnodd J Sadgrove am eglurhad ynglŷn â'r hyn a ddisgrifir ar dudalen 9 yr adroddiad ym mharagraff 2.20. Dywedodd J Palmer y dylai BIP Bae Abertawe ddarparu capasiti sylweddol o ran orthopaedeg trwy Ysbyty Castell-nedd Port Talbot o dan gytundeb lefel gwasanaeth. Ar hyn o bryd, eir yn groes iddo. **NODODD** yr aelodau y byddai hyn yn ffurfio rhan o'r drafodaeth â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r amcangyfrif diwedd blwyddyn.

PENDERFYNODD y Bwrdd i wneud y canlynol:

- **CROESAWU'R** ffurf ddiwygiedig ar yr adroddiad a'r ffaith y caiff dangosyddion ansawdd eu cynnwys;
- **NODI'R** diweddariad a ddarparwyd.

HB/20/018

ADRODDIAD METRIGAU'R GWEITHLU A DATBLYGU SEFYDLIADOL

Cyflwynodd H Daniel yr adroddiad a nododd y materion allweddol yn y Bwrdd Iechyd o ran y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. **NODODD** yr aelodau y cynhaliwyd trafodaethau manwl yn ddiweddar ynghylch y mater hwn yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a'r Gweithlu a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mewn ymateb i gwestiwn a holwyd gan N Milligan ynghylch faint o'r 42 o nyrsys tramor a oedd mewn swyddi nyrsys cofrestredig ar hyn o bryd, **NODODD** yr aelodau fod 24 yn y categori hwn.

Mewn perthynas â'r galw am nyrsys a'r angen i gynnal gwasanaethau diogel, holodd M Thomas ai dim ond mewn meysydd arbenigol y caiff staff asiantaeth eu defnyddio. Dywedodd G Dix fod staff Thornbury yn cael eu defnyddio ar draws nifer o feysydd ac y cytunwyd y byddai'r asiantaeth hon yn cael ei defnyddio'n llai aml pan fyddai ymuno nyrsys tramor â BIP CTM. Dywedodd M Thomas o safbwynt ansawdd y byddai'n well defnyddio cronfa'r Bwrdd Iechyd o nyrsys i sicrhau parhad gofal.

NODODD yr aelodau fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyflwyno cynllun cymhelliant ar gyfer nyrsys banc a bod ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i gyflwyno tâl wythnosol i staff banc. **NODODD** yr aelodau fod gwaith yn dal i barhau gydag uwch nyrsys ynghylch cadw staff.

PENDERFYNODD y Bwrdd i wneud y canlynol: **NODI'R** adroddiad.

HB/20/019

ADRODDIAD CYLLID MIS 9

Cyflwynodd S Webster yr adroddiad a dynnodd sylw at y negeseuon allweddol mewn perthynas â'r sefyllfa ariannol ym mis 9.

Eitem rhif 2.2.2 ar yr agenda

NODODD yr aelodau y cafwyd cadarnhad y byddai BIP CTM yn cael £3m ar ffurf cyllid 'ymyrraeth wedi'i thargedu' ac £1.3m ar gyfer cyllid gofal critigol. Ni chadarnhawyd hyd yn hyn a geir cyllid 'Buddsoddi i Arbed' ar gyfer nyrsio tramor a disgwylid canlyniad yr adolygiad cymrodeddu ynghylch newid ffin Pen-y-bont ar Ogwr, er y gwyddid eisoes y byddai'r cyllid yn cael ei dorri £2m.

NODODD yr aelodau y byddai angen gwelliant o £1.2m cyn 31 Mawrth 2020 er mwyn cadw ein pen uwchlaw'r dŵr ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. **NODODD** yr aelodau bwysigrwydd cyflawni perfformiad Atgyfeiriad am Driniaeth er mwyn osgoi cael llai o arian gan Lywodraeth Cymru.

PENDERFYNODD y Bwrdd i wneud y canlynol: **NODI'R** adroddiad.

HB/20/020

DIWEDDARIAD AM RAGLEN GWELLA GWASANAETHAU MAMOLAETH

Cyflwynodd G Dix yr adroddiad a dywedodd fod y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth wedi adrodd bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da ac, o ganlyniad, roedd y Panel yn optimistaidd y byddai gwelliannau cynaliadwy yn parhau.

NODODD yr aelodau fod cymorth ychwanegol wedi'i roi erbyn hyn i dîm y Gwasanaethau Mamolaeth. **NODODD** yr aelodau fod salwch/absenoldeb ymysg staff bydwreigiaeth yn parhau i fod yn uchel, ar 13-14%. Roedd cymorth seicolegydd ar waith yn yr Adran Iechyd Galwedigaethol a bod polisiau/canllawiau yn cael eu harmoneiddio ar draws y safleoedd.

Dywedodd S Hopkins fod BIP CTM yn ystyried yn gyson lle gellid rhannu gwersi a ddysgwyd ac ymarfer da ar draws y sefydliad.

PENDERFYNODD y Bwrdd i wneud y canlynol: **NODI'R** adroddiad.

HB/20/021

DIWEDDARIAD AM GYSYLLTIADAU RHWNG STAFF

Cyflwynodd H Daniel yr adroddiad a dynnodd sylw at y nifer o achosion parhaus sy'n cael eu rheoli. **NODODD** yr aelodau y bu lleihau yn nifer yr achosion parhaus o 150 ym mis Medi 2019 i'r ffigur presennol, sef 50 o achosion. **NODODD** yr aelodau fod nifer yr achosion carlam wedi cynyddu o 8 i 50.

PENDERFYNODD y Bwrdd i wneud y canlynol:

NODI'R adroddiad.

HB/20/022

YMYRRAETH WEDI'I THARGEDU: 'RHAGLEN AR GYFER GWELLIANNAU PARHAUS YN SGIL YMYRRAETH WEDI'I THARGEDU'

Cyflwynodd S Hopkins yr adroddiad a dywedodd er bod cynnydd wedi'i wneud, cydnabuwyd bod angen gwneud gwaith pellach. **NODODD** yr aelodau fod angen canolbwyntio ar feysydd cadarnhaol a **NODWYD** pwysigrwydd sicrhau bod y llwybr cynnydd yn cael ei gydnabod.

NODODD yr aelodau fod Llywodraeth Cymru, mewn cytundeb â'i phartneriaid, wedi dweud na fyddai statws uwchgyfeirio'r Bwrdd Iechyd yn newid am y tro.

HB/20/023

PENDERFYNODD y Bwrdd i wneud y canlynol: **NODI'R** adroddiad.
DIWEDDARIAD AM CHWARTER 3 CYNLLUN TYMOR CANOLIG INTEGREDIG 2019/20

Cyflwynodd C Williams yr adroddiad a dywedodd fod yr holl eitemau yn yr adroddiad eisoes wedi'u trafod yn adroddiad y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

PENDERFYNODD y Bwrdd i wneud y canlynol: **NODI'R** adroddiad.

HB/20/024

ADRODDIAD GAN GADEIRYDDION PWYLLGORAU A CHOFNODION PWYLLGORAU'R BWRDD

Cyflwynodd M Longley yr adroddiad a dywedodd y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno ar ffurf ddiwygiedig wrth symud ymlaen.

Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch – Dywedodd M Thomas fod y Pwyllgor wedi trafod ymateb y tîm rheoli i'r adolygiad ar y cyd o Lywodraethu Ansawdd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, a nodwyd y byddai'r sefyllfa yn cael ei monitro gan y Matrics Aeddfedrwydd. **NODODD** y Pwyllgor y lleihad ym mherfformiad yr ymateb i gwynion ond y dysgwyd gwersi gan y prosesau a ddilynwyd yn Ysbyty Tywysoges Cymru i wella'r sefyllfa. **NODODD** y Pwyllgor y cynnydd a wneir yn y Gwasanaethau Mamolaeth hefyd.

Pwyllgor Iechyd Sylfaenol a Chymunedol, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau – dywedodd M Thomas ei bod yn falch o gymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor er mwyn iddo gael sêl bendith y Bwrdd. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod 2018/19.

Eitem rhif 2.2.2 ar yr agenda

Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid - dywedodd C Williams fod y Grŵp bellach wedi cael enwebiadau ar gyfer ei Gadeirydd ac Is-gadeirydd newydd, er na nodwyd hyn yn Adroddiad Cryno y Cadeirydd. **NODODD** yr aelodau yr enwebwyd Sharon Richards i fod yn Gadeirydd, ac Eleanor Roberts i fod yn Is-gadeirydd. **NODODD** yr aelodau fod gwaith wedi'i gyflawni i sicrhau bod y gynrychiolaeth y briodol.

PENDERFYNODD y Bwrdd i wneud y canlynol:

- **NODI'R** adroddiad;
- **CYMERADWYO** cofnodion cyfarfodydd pwyllgor y Bwrdd;
- **CYMERADWYO** Adroddiad Blynyddol 2018/19 y Pwyllgor Iechyd Sylfaenol a Chymunedol, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau, gan gynnwys Hunan-asesiad y Pwyllgor;
- **CYMERADWYO** cylch gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth.

HB/20/025

UNRHYW FATERION ERAILL

Ni fu unrhyw faterion eraill.

HB/20/026

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Iau 26 Mawrth 2020.

LLOFNODWYD:

M Longley, Cadeirydd

DYDDIAD: